

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020

Paratowyd y nodyn hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar 27 Mawrth 2020 a 3 Ebrill 2020 [ynghylch delio, dros dro, ag offerynnau statudol](#) a osodwyd gerbron y Cynulliad.

Crynodeb

Noder: o 25 Mawrth 2020, dirymwyd y Rheoliadau hyn, gyda darpariaethau arbed, gan Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaed o dan Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (**Deddf 1984**), yn gwneud darpariaeth ar gyfer galluogi rhoi nifer o fesurau iechyd cyhoeddus ar waith i leihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o syndrom anadlu aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r afiechyd a elwir yn COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n galluogi gosod cyfyngiadau (a all gynnwys sgrinio, ynysu a chyfyngiadau priodol eraill) ar unigolion lle mae gan Weinidogion Cymru neu ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig sail resymol i amau bod yr unigolyn wedi'i halogi â'r coronafeirws, neu y gallai fod wedi'i halogi. Mae'r Rheoliadau'n darparu hawl i gwnstabl heddlu gadw unigolyn a gorfodi'r cyfyngiadau hynny yn ôl yr angen.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth i gwnstabliaid heddlu gadw unigolion lle mae ganddynt sail resymol i gredu bod unigolyn wedi'i heintio neu wedi'i halogi â'r coronafeirws, neu y gallai fod wedi'i heintio, ac yn peri risg i bobl eraill. Mae'n ofynnol i'r cwnstabl roi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru a thrafod gydag ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig wrth arfer ei bwerau.

Mae'r Rheoliadau'n creu troseddau perthnasol y rhoddir cosb amdanynt, yn sgil euogfarn ddiannod, sef dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn y bryd).

Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol": gwnaed y Rheoliadau cyn cael eu gosod (dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn Neddf 1984), ac maent yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 28 diwrnod o gael eu gwneud.

Mae'r Rheoliadau bellach wedi'u dirymu gan Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Pwyntiau Ychwanegol i Nodi

Nodwyd y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

1. Iawnderau dynol

Nodwn, oherwydd natur y mesurau y darperir ar eu cyfer gan y Rheoliadau, ei bod yn ymddangos bod yr Erthyglau canlynol o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael eu defnyddio: Erthygl 5 – yr hawl i ryddid a diogelwch; Erthygl 8 – yr hawl i barch am fywyd teuluol a phreifat, ac Erthygl 11 - rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu.



Anghenraid y sefyllfa sydd wedi arwain at y Rheoliadau yw'r sail debygol y dibynnir arni i gyfiawnhau'r ymyrraeth â'r hawliau hyn fel ffordd gymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon o ddiogelu dinasyddion Cymru fel y nodir yn y Rheoliadau.

2. Pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru

Nodwn fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi pwerau sylweddol i'w hunain o dan y Rheoliadau. Fodd bynnag, oherwydd natur yr amgylchiadau brys y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 1984, rhagwelir y rhoddir y pwerau hyn o dan adran 45D(5)(a) o Ddeddf 1984. At hynny, bydd y Rheoliadau eu hunain, ac felly'r pwerau perthnasol a roddir i Weinidogion Cymru, yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd o'r diwrnod y dônt i rym yn unol â rheoliad 15.

Gwasanaethau Cyfreithiol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
7 Ebrill 2020

